Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Y Llwyfan
Heol y Coleg
Caerfyrddin
SA31 3EQ

Cadeirydd:
Andrew Green
Prif Weithredwr:
Dr Ioan Matthews

Ffôn:
01267 610400
Ebost:
gwybodaeth@colegcymraeg.ac.uk
www.colegcymraeg.ac.uk

CYLCHLYTHYR

Dyfarniadau Grantiau Bach a Chynadleddau o'r Gronfa Datblygiadau Strategol

Dyddiad:	15 Gorffennaf 2015
Cyfeirnod:	14/12
At:	Penaethiaid sefydliadau addysg uwch Cymru, Grŵp Ymgynghorol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Cydlynwyr Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg sefydliadol a'r Swyddogion Cangen.
Ymateb erbyn:	Nid oes angen ymateb.
Cyswllt:	E-bost: prosiectau@colegcymraeg.ac.uk

Mae'r cylchlythyr hwn yn cyflwyno'r rhestr ddiweddaraf o Grantiau Bach a Chynadleddau i'w cefnogi drwy Gronfa Datblygiadau Strategol y Coleg.

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/amdanomni/cylchlythyron/2014-15/

1. Mae'r cylchlythyr hwn yn cyflwyno rhestr o'r Grantiau Bach diweddaraf a chynadleddau i'w cefnogi gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol [y Coleg] o'r Gronfa Datblygiadau Strategol.

Dyfarniadau Grantiau Bach

2. Gwahoddwyd ceisiadau am Grantiau Bach drwy gylchlythyr a gyhoeddwyd ar 8 Mai 2015 (Cylchlythyr Cyf:14/09). Derbyniwyd 26 o geisiadau erbyn y dyddiad cau (4 Mehefin 2015).

3. Ar 3 Gorffennaf 2015, ystyriwyd y ceisiadau gan swyddogion y Coleg, ynghyd â Denise Williams, aelod o'r Panel Grantiau. Mae Cadeirydd Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg wedi cadarnhau'r argymhellion.

4. Ceir rhestr lawn o'r Grantiau Bach a ddyfarnwyd yn **Atodiad 1.**

Dyfarniadau Cynadleddau

5. Gwahoddwyd ceisiadau am Gynadleddau drwy gylchlythyr a gyhoeddwyd ar 26 Mawrth 2015 (Cylchlythyr Cyf:14/08). Derbyniwyd 7 o geisiadau erbyn y dyddiad cau (1 Mai 2015). Derbyniwyd rhai ceisiadau am Gynadleddau hefyd yn sgil y gwahoddiad am geisiadau Grantiau Bach.

6. Ar 6 Gorffennaf 2015, ystyriwyd yr holl geisiadau am Gynadleddau gyda'i gilydd gan swyddogion y Coleg.

7. Ceir rhestr lawn o'r Cynadleddau a gefnogwyd yn **Atodiad 2.**

Cyffredinol

8. Rhyddheir grant gan y Coleg ar gyfer y Grantiau Bach a Chynadleddau sydd wedi eu cefnogi ym mis Gorffennaf 2015.

9. Bydd Swyddog Datblygu Prosiectau'r Coleg yn cysylltu â'r rheolwyr prosiectau i drafod unrhyw amodau sydd ynghlwm â'r dyfarniad. Nodir pob grant sydd ag amodau â ** yn

yr atodiadau a bydd cyllido'r gweithgareddau hyn yn amodol ar barodrwydd yr ymgeiswyr i gytuno â'r amodau.Disgwylir derbyn cadarnhad e-bost gan yr ymgeiswyr yn nodi eu bod yn derbyn yr amodau hynny cyn bod y gweithgaredd yn cychwyn. Os na derbynnir yr amodau, caiff y taliadau grant eu had-hawlio gan y Coleg.

10. Nodir amodau dyfarnu'r grant a'r gofynion adrodd a monitro yn glir yn yr ohebiaeth a fydd yn cadarnhau rhyddhau'r grant. Mae'r amodau yn cynnwys cadarnhau'r amserlen yn ffurfiol drwy e-bost a darparu Adroddiad Diwedd Prosiect yn sgil y gweithgaredd yn nodi deilliannau a manylion gwariant yn llawn. Darperir templad Adroddiad Diwedd Prosiect gan y Coleg a bydd y Coleg yn adhawlio unrhyw danwariant.

11. Noder hefyd amodau cyffredinol sy'n cynnwys:

    (i) **Digwyddiadau Recriwtio**: Disgwylir i bawb sy'n cynnal digwyddiad recriwtio i hybu aelodaeth o'r Coleg (boed i fyfyrwyr, staff prifysgolion, disgyblion ysgol, staff ysgol neu eraill). Bydd dangos tystiolaeth o enwau a rhifau aelodaeth yn allbwn i'r prosiect a dylid cyflwyno'r dystiolaeth honno gyda'r Adroddiad Diwedd Prosiect.

    (ii) **Cynhadledd/Cwrs/Seminar**: Disgwylir i bawb sy'n mynychu neu'n cymryd rhan mewn cynhadledd/cwrs/seminar o dan nawdd y Coleg naill ai ymaelodi â'r Coleg neu dalu ffi lawn. Bydd dangos tystiolaeth o enwau a rhifau aelodaeth yn allbwn i'r prosiect a dylid cyflwyno'r dystiolaeth honno gyda'r Adroddiad Diwedd Prosiect.

    (iii) **Marchnata/Cyhoeddusrwydd**: Disgwylir i unrhyw waith marchnata/ cyhoeddusrwydd gydnabod nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar bob achlysur, boed hynny mewn print neu ar-lein. Gwelir http://www.colegcymraeg.ac.uk/brand ar gyfer copi o logos y Coleg. Dylid sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n gywir yn unol â chanllawiau brand y Coleg. Danfonir canllaw penodol yn ymwneud â chynhadleddau i drefnwyr cynadleddau ac mae copi o'r canllaw hefyd ar wefan y coleg - http://www.colegcymraeg.ac.uk/cynadleddau

(iv) Dylid cysylltu â'r Rheolwr Cyfathrebu i wirio diwyg unrhyw ddeunydd hyrwyddo o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn cyhoeddi, sef Elin Williams 01267610408 e.williams@colegcymraeg.ac.uk.

(v) **Cyhoeddiadau**: Disgwylir i bob cyhoeddiad gydnabod nawdd y Coleg yn unol â chanllawiau cyhoeddi'r Coleg a disgwylir i reolwr y prosiect gysylltu â Swyddog Cyhoeddiadau'r Coleg i wirio manylion perthnasol, sef Mari Fflur 02920 109020 m.fflur@colegcymraeg.ac.uk

(vi) **Trwyddedi a hawlfraint**: Trwyddedir adnoddau/cyhoeddiadau ar lwyfannau e-ddysgu'r Coleg o dan drwydded Creative Commons e.e. CC BY-SA 4.0 oni bai bod amgylchiadau arbennig. Cyfrifoldeb rheolwr y prosiect yw sicrhau bod cyfranwyr yn ymwybodol o, ac yn cydsynio i, hyn. Cyfrifoldeb rheolwr y prosiect yw unrhyw waith clirio hawlfraint.

(vii) **Llwyfannau E-ddysgu:** Disgwylir gallu cyhoeddi pob adnodd/cyhoeddiad ar un o lwyfannau e-ddysgu'r Coleg, e.e. Y Porth, Y Llyfrgell Adnoddau, Yr Esboniadur a/neu safle iTunesU y Coleg. Dylai rheolwr y prosiect gysylltu â Rheolwr Gwasanaethau Gwybodaeth y Coleg cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau y datblygir yr adnodd/cyhoeddiad ar ffurf briodol sy'n addas ar gyfer y llwyfan.

(viii) **Termau:** Os oes gennych ymholiadau'n ymwneud â thermau dylid cysylltu â Therminolegydd Addysg Uwch y Coleg, sef Dr Tegau Andrews t.andrews@bangor.ac.uk. Dilyner y ddolen isod er mwyn gweld yr adnodd - http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/adnoddau/termau/

12. Yr oedd y ceisiadau sydd heb eu nodi yn y cylchlythyr hwn yn aflwyddiannus. Darperir adborth ar geisiadau aflwyddiannus yn sgil derbyn cais.

ATODIAD 1

Ceisiadau Grantiau Bach sydd wedi eu cefnogi (*Amod/au ynghlwm wrth y grant)

Teitl	Sefydliad	Rheolydd
Y Gors	Prifysgol Aberystwyth	Dafydd Sills-Jones
Cyfrol Goffa Meredydd Evans: Astudiaethau Athronyddol 4	Prifysgol Aberystwyth	Huw Lewis
Ffau'r Ddraig Aber*	Prifysgol Aberystwyth	Robert Bowen
Cystadleuaeth busnes	Prifysgol Aberystwyth	Wyn Morris
Cyfuno'r celfyddydau a'r gwyddorau: sut mae'r ymennydd yn ymateb i gerdd dant*	Prifysgol Bangor	Awel Vaughan-Evans
Creu cyfres o bodlediadau i hyrwyddo'r defnydd o e-ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg*	Prifysgol Bangor	Bethan Wyn Jones
Recordio 3 sesiwn darlith / cwestiwn ac ateb*	Prifysgol Bangor	Owain Wyn Jones
Cynhyrchu llyfryn Cynllunio Trefol a Gwledig *	Prifysgol Caerdydd	Nerys Owen
Caffi a chymdeithas Athroniaeth*	Prifysgol Caerdydd	Huw Williams
Cyflwyno Tafodieithoedd y Wladfa*	Prifysgol Caerdydd	Iwan Wyn Rees
Moeseg mewn Chwaraeon*	Prifysgol Metropolitan Caerdydd	Carwyn Jones
Cyfoethogi profiad dysgu myfyrwyr Lefel 4 a 5	Prifysgol Metropolitan Caerdydd	Kelly Young
Wise Wales*	NUS Cymru	Heather Ferguson

ATODIAD 2

Ceisiadau Cynadleddau sydd wedi eu cefnogi (*Amod/au ynghlwm wrth y grant)

Teitl	Sefydliad	Rheolydd
Cynhadledd Dwyieithrwydd mewn Addysg	Prifysgol Bangor	Nia Young
Cynhadledd Cymraeg Proffesiynol/ Cymraeg yn y Gweithle	Prifysgol De Cymru	Rhiannon Heledd Williams
Cynhadledd Undydd: gweithio gyda phlant a theuluoedd*	Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant	Jên Dafis
Cynhadledd Wyddonol	Cenedlaethol	Ffion Hughes
Cynhadledd Polisi Cymdeithasol a Chymdeithaseg: Tlodi plant yng Nghymru	Prifysgol Caerdydd	William Aled Jones/ Siôn Jobbins
Symposiwm Daearyddiaeth	Prifysgol Abertawe	Rhian Meara/ Ffion Hughes
Cynhadledd J R Jones	Prifysgol Caerdydd	Huw Williams/ Siôn Jobbins
Astudiaeth Menywod a'r Gymraeg: a yw'r frwydr ar ben?	Prifysgol Caerdydd	Siwan Rosser
Cynhadledd Chwaraeon	Prifysgol Metropolitan Caerdydd	Carwyn Jones/ Ffion Hughes
Golwg ar Gelf*	Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant	Gwenllian Beynon
Cynhadledd Undydd Rhyngddisgyblaethol 'Creu a Chyfleu'	Prifysgol Bangor	Rhiannon Heledd Williams/ Eifiona Lane
Cynhadledd Hanes Genedlaethol - Cymru a'r Iwerddon	Prifysgol Bangor	Euryn Rhys Roberts/ Siôn Jobbins
Cynhadledd Ail Iaith	Cenedlaethol	Rhian Jones
Ysgol Haf Ieithoedd Modern	Cenedlaethol	Rhian Jones

Cwrs preswyl blynyddol i fyfyrwyr Ieithoedd Modern	Cenedlaethol	Sophie Smith/ Rhian Jones